

CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Arbennig Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 22 Ebrill 2024

Minutes of Special Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 22nd April 2024

Yn Bresennol: Present: Cyngorwyr/Councillors Eileen Curry, Gethin Jones, Sue Lloyd, Mike Hotson, Keith Evans a/and Heddwen Davies

Ymddiheuriadau/Apologies: Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyngorwyr Beth Davies ac Andrew Howell / Apologies were received from Cllrs Beth Davies and Andrew Howell

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, yn ogystal â'r clerwr (oherwydd salwch), gweinyddwyd y ddolen zoom a chadeiriwyd y cyfarfod gan Gyngorwyr Keith Evans, gyda chymeradwyaeth pawb.

Eitem 1 ar yr Agenda: Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

Eitem 2 ar yr Agenda: Cais gan Nacro am gymorth ariannol o £540 ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn Llandysul er mwyn helpu preswylwyr i gael gwybod am y cymorth sydd ar gael iddynt gan amrediad o adrannau'r Llywodraeth a Llywodraeth leol a darparwyd o'r trydydd sector.

Roedd yr aelodau yn gefnogol iawn o ystod eang y darparwyd gwasanaeth sy'n mynychu'r digwyddiadau, ynghyd â'r enghreifftiau o'r cymorth a ddarparir i breswylwyr, ac roeddent yn canmol hyn.

Gweithredu: Cytunodd yr aelodau yn unfrydol y dylid cefnogi'r cais yn llawn, a rhoi £540

Eitem 3 ar yr Agenda: Adolygiad Cymunedol Ceredigion

Cyflwynwyd y ddogfen ymgynghori gan Gyngorwyr Keith Evans a rhoddodd drosolwg byr ohoni.

Arsylwadau'r aelodau wrth ymateb i'r ymgynghoriad:

- Roedd yr aelodau yn teimlo bod dryswch a diffyg cysondeb yn amlwg o ran y defnydd a wneir o ddisgrifiadau e.e. Cymuned – Cyngorwyr Tref – Cyngor Cymuned.
- Roedd yr aelodau yn gefnogol o'r mân newidiadau a awgrymwyd ar gyfer ardal Horeb, oherwydd y byddai hyn yn cynnig eglurder am eu cynrychiolydd nhw, ac ym mha ward y mae'r ardal yn perthyn.

- Roedd penderfyniad yr aelodau yn unfrydol ynghylch gostwng nifer yr aelodau etholedig a chynrychiolaeth wardiau. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ac yn arwain at ddiffyg democrataidd mewn ardal wledig iawn lle y byddai mynediad i ddemocratiaeth yn cael ei leihau mewn ffordd ddramatig (gostyngiad o tua 50%). Teimlwyd mai adolygiad sy'n canolbwyntio ar sefyllfaoedd Trefol yw hwn, heb ystyried ardaloedd gwledig mwy anghysbell fawr ddim.
- Nid oedd cysondeb yn y cynigion o ran cynrychiolaeth yn yr ardaloedd Cynghorau Tref a Chymuned amrywiol, a gwelwyd gwahaniaethau sylweddol rhwng lleoliadau ar draws y sir. Barnwyd bod hyn yn annheg iawn.
- Hyd yn oed o fewn Ceredigion, teimlwyd bod yn rhaid i'r ardaloedd gwledig mwy anghysbell ddwyn baich y gostyngiadau o'u cymharu â'u cynrychiolaeth drefol, heb roi ystyriaeth briodol i gyfanswm y teithio a'r amser sy'n ofynnol yn y wardiau anghysbell iawn hyn.
- Roedd yr aelodau yn anfodlon â'r ffaith bod y ddogfen yn cyfeirio at Bontshaen yn hytrach na Phontsiân. Gyda chymorth Comisiynydd y Gymraeg, mae Ceredigion wedi symud yn ei blaen wrth ddarparu enwau Cymraeg ar gyfer ein cymunedau. Roedd yr aelodau yn ceisio sicrwydd y byddai'r enw Cymraeg yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw fersiynau pellach o'r dogfennau hyn.
- Roedd yr aelodau o'r farn y dylai dull gweithredu yr ymgynghoriad hwn fod wedi cynnwys mwy o sgwrsio gyda chymunedau, yn hytrach na bod yn ddull pen desg.
- Pwysleisiwyd y pwynt gan yr aelodau mai rôl wirfoddol ar y cyfan yw rôl Cynghorydd, heb fawr iawn o dâl ariannol. Ni ddylid anghofio yn yr adolygiad hwn bod Cynghorwyr, fel Arweinwyr eu cymunedau, eisoes wedi ymrwymo i gyflawni rolau gwirfoddol eraill yn eu wardiau. Efallai y byddai gostwng eu niferoedd gymaint â thua 50% yn cael goblygiadau difrifol ar gyfer yr ymgymeriad hwn.
- Roedd yr aelodau yn pryderu y byddai'r gostyngiad posibl i'w niferoedd yn lleihau eu dylanwad ym marn yr etholwyr, ac y byddai hyn yn digwydd ar adeg pan fo'r Cyngor Sir yn ceisio cymorth Cynghorau Tref a Chymuned i gyflawni gwasanaethau a gyflawnir gan y Cyngor Sir fel arfer.
- Mae egwyddorion datblygu Cymunedol sy'n seiliedig ar Asedau wedi bodoli ers cryn amser, ac mae'r arfer hwnnw hyd yn oed wedi cael ei ddisodli rywfaint gan Systemau Dysgu Dynol. Hwn yw'r dull yr wyf yn ei ffafrio ar gyfer datblygu cymunedol, ymgynghori a sicrhau cynnydd trwy newid.